Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

143(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith - Strategaeth a chynllun gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru

(60 munud)

NDM8281 Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: 'Strategaeth a chynllun gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru', a osodwyd ar 28 Mawrth 2023.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2023.

6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Arferion cyfrifyddu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(30 munud)

NDM8282 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y dylid cyhoeddi adroddiad fforensig Ernst & Young o faterion cyfrifeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn llawn ac y dylai fod yn y parth cyhoeddus.

2. Yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyhoeddi adroddiad Ernst & Young.

3. Yn gofyn, o ystyried canfyddiadau Ernst & Young, fod adolygiad ehangach ac annibynnol yn cael ei ystyried i roi sicrwydd:

a) nad yw'r arferion a nodwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn digwydd mewn sefydliadau GIG eraill yng Nghymru; a

b) nad oedd arferion tebyg wedi effeithio ar flynyddoedd ariannol cyn y rhai a adolygwyd gan Ernst & Young

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y diddordeb sylweddol yn adroddiad fforensig Ernst & Young o faterion cyfrifyddu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn nodi galwadau i'w gyhoeddi.

2. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad Ernst & Young yn unol â gweithdrefnau a pholisïau presennol a'i fod yn ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â'i gyhoeddi.

3. Yn nodi rôl Archwilio Cymru yn rhoi sicrwydd ar reoli arian cyhoeddus a bwriad Llywodraeth Cymru i gynnal ymarfer dysgu gwersi a rhannu'r canfyddiadau ymysg sefydliadau'r GIG.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cynefinoedd carbon glas

(30 munud)

NDM8283 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod moroedd Cymru yn cynnwys morwellt, morfeydd heli, a chynefinoedd carbon glas gwymon, sy'n cwmpasu mwy na 99km² o rwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru.

2. Yn nodi bod carbon eisoes yn cael ei storio yng ngwaddodion morol Cymru.

3. Yn gresynu at y ffaith bod hyd at 92 y cant o forwellt y DU wedi diflannu yn ystod y ganrif ddiwethaf, fel yr amlygwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar bolisïau morol Llywodraeth Cymru.

4. Yn cydnabod bod galluoedd storio carbon y cefnfor yn hanfodol wrth gyrraedd y targed o ddod yn sero-net erbyn 2050.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) creu cynllun adfer carbon glas cenedlaethol i Gymru, wedi'i gynllunio i gynnal a gwella ein cynefinoedd carbon glas morol amhrisiadwy;

b) adeiladu ar lwyddiant Prosiect Seagrass, cydweithrediad rhwng Sky Ocean Rescue, WWF a Phrifysgol Abertawe, sy'n anelu at adfer 20,000m² o forwellt, drwy blannu dros 750,000 o hadau ym Mae Dale yn Sir Benfro; ac

c) datblygu cynllun datblygu morol cenedlaethol Cymru sy'n dangos yn glir lle y gellir cynnal prosiectau carbon glas.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn credu y dylid manteisio ar bob cyfle ddaw i ehangu dalfa garbon Cymru, megis carbon glas, er mwyn cyflymu'n taith at sero net yn hytrach nag osgoi gweithredu.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli Ystâd y Goron fel bod mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar garbon glas yn cael eu gwneud yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau adferiad carbon glas cenedlaethol trwy ariannu gwaith cynnal a gwella morwellt, morfeydd heli a chynefinoedd arfordirol eraill sy'n gyfoethog o ran eu natur a'u carbon;

b) adeiladu ar lwyddiant yr holl brosiectau ledled Cymru sy'n adfer cynefinoedd morol, gan gynnwys gwaith llwyddiannus y Prosiect Morwellt yn Dale a phrosiect Ocean Rescue Seagrass o dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gafodd ei ariannu'n ddiweddar i dargedu gwaith adfer oddi ar arfordir Llŷn; a

c) mynd i'r afael â chynllunio morol mewn ffordd ofodol gan sicrhau bod prosiectau carbon glas yn cael eu lleoli i sicrhau'r manteision mwyaf i natur tra'n caniatáu gweithgareddau morol pwysig eraill gan gynnwys pysgota, mordwyo ac ynni.

8 Dadl Plaid Cymru - Datganoli adnoddau dŵr yn llawn

(60 munud)

NDM8279 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu:

a) y dylai Cymru gael rheolaeth lawn dros ei hadnoddau dŵr, gan gynnwys y gallu i reoleiddio trosglwyddo dŵr y tu hwnt i'w ffiniau;

b) y byddai datganoli pwerau dros ddŵr ymhellach hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r broblem o ollyngiadau carthion i afonydd a moroedd Cymru mewn modd mwy effeithlon; ac

c) bod preifateiddio dŵr yn fodel aflwyddiannus sydd wedi arwain at filiau cynyddol a dirywiad trychinebus yn ansawdd dŵr Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gofyn yn ffurfiol am gychwyn adran 48(1) o Ddeddf Cymru 2017, a fyddai'n alinio cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd dros ddŵr yn llawn â ffin ddaearyddol Cymru;

b) gofyn yn ffurfiol am ragor o bwerau dros drwyddedu ymgymerwyr carthion yng Nghymru; ac

c) cyflwyno deddfwriaeth o fewn tymor presennol y Senedd i osod cynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff cwmnïau dŵr yng Nghymru ar sail statudol.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod cyfrifoldeb dros reoli llygredd wedi'i ddatganoli i Gymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod 25 y cant o'r oriau a gofnodwyd o ollyngiadau carthion yng Nghymru a Lloegr yn 2022 wedi mynd i ddyfrffyrdd Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) diweddaru'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â gollyngiadau carthion i afonydd, llynnoedd a moroedd Cymru;

b) cyhoeddi adroddiad tasglu Llywodraeth Cymru ar orlifiadau stormydd; ac

c) gweithredu targedau statudol i gwmnïau dŵr wella gorlifiadau stormydd.

Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

Gwelliant 2 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd bwynt 2:

defnyddio ei phwerau i'w gwneud yn ofynnol bod pob buddsoddiad strategol mewn seilwaith dŵr sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys trosglwyddiadau, yn dod â budd i gymunedau ac amgylchedd naturiol Cymru.

gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu dyfodol adnoddau dŵr Cymru trwy fynd i'r afael â phob gwasgfa ar yr adnoddau hynny, sef o ddŵr gwastraff, dŵr ffo trefol, camgysylltiadau, llygredd gwledig gwasgaredig, newidiadau ffisegol, hen lofeydd a rhywogaethau goresgynnol.

neilltuo cyllid ychwanegol i'r Byrddau Rheoli Maethynnau i brysuro'u gwaith o ddiogelu adnoddau dŵr.

neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer grantiau cyfalaf i ffermwyr iddynt allu gwella seilwaith sy'n diogelu adnoddau dŵr.

cynyddu'r defnydd o ddata gwyddoniaeth y dinesydd er mwyn i ni allu deall yn well y gwasgfeydd ar adnoddau dŵr.

datblygu dulliau ar lefel dalgylch gyfan ar gyfer cydsynio a gwelliannau strategol wrth reoli adnoddau dŵr cenedlaethol.

9 Cyfnod Pleidleisio

10 Dadl Fer

(30 munud)

NDM8278 Buffy Williams (Rhondda)

Cymorth i fenywod yng Nghymru sy'n dioddef o anhwylder dysfforig cyn mislif

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2023

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 31/05/2023 i'w hateb ar 07/06/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

1 OQ59611 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar strategaeth y Llywodraeth i wella'r amgylchfyd trefol yng Ngorllewin De Cymru?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

2 OQ59621 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau'r Llywodraeth i wella cysylltiadau trafnidiaeth dros y Fenai?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

3 OQ59590 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lygredd yn Afon Tawe?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

4 OQ59591 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o fanteision amgylcheddol saethu anifeiliaid hela?

Peter Fox *Mynwy*

5 OQ59618 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl sydd eisiau dringo'r ysgol eiddo?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

6 OQ59606 **(e)**

Pa ffactorau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth gyfrifo targedau adeiladu tai?

Gareth Davies *Dyffryn Clwyd*

7 OQ59602 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd yng ngogledd Sir Ddinbych?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

8 OQ59612 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut fydd cynlluniau datblygu strategol y dyfodol yn effeithio ar broses cynlluniau datblygu lleol yng Ngogledd Cymru?

Cefin Campbell *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ59604 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

10 OQ59608 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gwmpas pwyntiau gwefru ceir trydan yn ne-ddwyrain Cymru?

Ken Skates *De Clwyd*

11 OQ59601 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau bysiau lleol yn Ne Clwyd?

Peredur Owen Griffiths *Dwyrain De Cymru*

12 OQ59617 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'i hadnoddau dŵr?

GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Peredur Owen Griffiths *Dwyrain De Cymru*

1 OQ59616 **(w)**

Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth ar waith i hybu addysg cyfrwng Cymraeg?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

2 OQ59598 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd i hyrwyddo teithio llesol mewn ysgolion?

Hefin David *Caerffili*

3 OQ59593 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio asiantaethau i ddarparu cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ59595 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi ysgolion sy'n dymuno cynnal clybiau gwyliau?

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

5 OQ59588 **(w)**

Pa gynnydd sydd wedi ei wneud ar ddarparu cyfloedd trochi yn y Gymraeg i ddysgwyr oed ysgol yng Nghanol De Cymru?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

6 OQ59609 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cryfhau dull ysgolion bro ym maes addysg?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

7 OQ59605 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysg Gymraeg o safon?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

8 OQ59620 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau absenoldeb ysgol?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

9 OQ59613 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi cynnal am gyllid ysgolion yng Nghaerdydd?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

10 OQ59589 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant i fyfyrwyr a staff yn y sector addysg bellach?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

11 OQ59610 **(w)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chost y diwrnod ysgol?

Peter Fox *Mynwy*

12 OQ59619 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella addysg sy'n ymwneud â chynaliadwyedd bwyd yn ysgolion Cymru?